

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Luke Clements

Athro Cerebra y Gyfraith a Chyfiawnder Cymdeithasol
Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Leeds
www.lukeclements.co.uk

1

Croeso

2

Rhaglen

1. Cefndir / trosolwg (diffiniadau ac egwyddorion);
2. Asesu anghenion gofal a chymorth gofalwyr a phobl anabl;
3. Hawliau gofalwyr o dan Ddeddf GCalI (Cymru) 2014;
4. Diwallu 'anghenion cymwys': gofal a chymorth;
5. Rhiant ofalwyr a gofalwyr ifanc;
6. Gwrthdaro rhwng gofalwr / unigolyn anabl: cydraddoldeb a iawnderau dynol;
7. Problemau cyffredin: gan gynnwys effeithiau Covid-19
8. Meini prawf cymhwysra mewn mwy o fanylder;
9. Adnoddau.

3

Cefndir / trosolwg

4

Diffiniadau ac egwyddorion

5

Diffiniadau

Pobl a allai fod angen gofal a chymorth

- Rhaid i'r angen ddeillio o afiechyd corfforol neu feddyliol, oedran, anabledd, dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau

Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwysra) (Cymru) 2015

Gofalwyr

- Rhywun sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl (ond nad yw'n cael ei dalu i wneud hynny)

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a3

6

Llesiant ~ adran 2

Gall llesiant olygu unrhyw un o'r canlynol:

- iechyd corfforol a meddyliol a llesiant emosiynol;
- amddiffyniad rhag camdriniaeth ac esgeulustod;
- addysg, hyfforddiant neu hamdden;
- perthnasoedd domestig, teuluol a phersonol;
- cyfraniad a wneir i gymdeithas;
- sicrhau iawnderau a hawliau;
- llesiant cymdeithasol ac economaidd;
- addasrwydd llefy byw.

i oedolion

- rheolaeth dros fywyd o ddydd i ddydd;
- cyfranogi mewn gwaith

7

Llesiant ~ adran 6

Mae'n rhaid i ALI roi ystyriaeth i'r canlynol—

- barn, dymuniadau a theimladau'r unigolyn,
- hyrwyddo a pharchu urddas yr unigolyn,
- nodweddion, diwylliant a chredoau'r unigolyn (gan gynnwys, er enghraifft, iaith), a
- phwysigrwydd cymorth i alluogi'r unigolyn i gymryd rhan mewn penderfyniadau ...

i oedolion

- y rhagdybiaeth eu bod yn y sefyllfa orau i farnu eu llesiant, a
- phwysigrwydd hyrwyddo annibyniaeth os yn bosibl

8

Asesu anghenion gofal a chymorth
gofalwyr a phobl anabl

9

Dyletswydd asesu - trosolwg

Dylai asesiadau gofalwyr ac asesiadau pobl anabl 'fwydo i mewn i'w gilydd'.

- Efallai y bydd asesiad gofalwr yn nodi'r angen i ofalwr gael 'seibiant' - oherwydd, er enghraifft, nad yw'n gallu parhau i ddarparu'r un lefel o ofal;
- Yna caiff yr unigolyn anabl ei asesu i adnabod y gofal ychwanegol sydd ei angen arno/arni er mwyn galluogi'r gofalwr i gael 'seibiant'.
- Yr angen a aseswyd o ran y gofalwr yw ar gyfer 'seibiant'
- Yr angen a aseswyd o ran yr unigolyn anabl yw ar gyfer y cymorth ychwanegol sydd ei angen i alluogi'r gofalwr i gael y seibiant (hy gwasanaeth eistedd / gofal seibiant ac ati).

10

Dyletswydd asesu - cyffredinol

Dyletswydd i asesu oedolion anabl (a19); plant mewn angen (a21); a gofalwyr (a24).

- Dyletswydd a ysgogwyd gan yr 'ymddangosiad o angen' - (nid cais);
- Mae cyllid yn amherthnasol;
- Mae lefel yr angen yn amherthnasol;
- Gall oedolion wrthod asesiad oni bai eu bod yn 'brin o allu' i wrthod neu mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso
- Canllawiau Allweddol 'Rhan 3 Cod Ymarfer asesu anghenion unigolion'

11

Asesiadau – Cod Ymarfer

Pwrpas asesiad ... yw gweithio gydag unigolyn, gofalwr a theulu ... i ddeall eu hanghenion, eu gallu, eu hadnoddau a'r canlyniadau y mae angen iddynt eu cyflawni, ac yna adnabod y ffordd orau o gael eu cefnogi i'w cyflawni.

Wrth wraidd hyn y mae sgwrs am hyrwyddo annibyniaeth a datblygiad trwy wneud y mwyaf o reolaeth pobl dros eu bywydau o ddydd i ddydd ...

Cod Ymarfer Rhan 3 (Asesu Anghenion Unigolion) para 11

12

Asesiadau – Cod Ymarfer

Diffinnir llesiant mewn perthynas â phob agwedd ar fywyd unigolyn. Ar gyfer unigolyn sydd angen gofal a chymorth neu ofalwr sydd angen cymorth, y bwriad yw y bydd llesiant yn cynnwys agweddau allweddol ar fyw'n annibynnol, fel y nodir yng **Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau** (yn enwedig Erthygl 19 o'r **Confensiwn**).

Cod Ymarfer Rhan 2 (Swyddogaethau Cyffredinol) para 56

13

Asesiadau – Cod Ymarfer

Pwrpas asesiad... yw gweithio gydag unigolyn, gofalwr a theulu ... i ddeall eu hanghenion, eu gallu, eu hadnoddau a'r canlyniadau y mae angen iddynt eu cyflawni, ac yna adnabod y ffordd orau o gael eu cefnogi i'w cyflawni.

Wrth wraidd hyn y mae sgwrs am hyrwyddo **annibyniaeth** a datblygiad trwy wneud y mwyaf o reolaeth pobl dros eu bywydau o ddydd i ddydd ...

Cod Ymarfer Rhan 3 para 11

14

Asesu cymhwysra ~ crynodeb

Mae rheoliadau'n nodi proses ar gyfer asesu a yw unigolyn anabl / gofalwr yn gymwys i gael cymorth

- Mae'r rheoliadau 'meini prawf cymhwysra' hyn yn dechnegol iawn ac yn ddiangen o gymhleth
- Ystyrir y rhain yn fanylach ar ddiwedd y sgwrs hon (adran 7 isod).

15

Asesu cymhwysra ~ crynodeb

Oherwydd
rôl ofalu
neu nam



Three vertical lines for handwriting practice.

16

Asesu cymhwysra ~ crynodeb

Nid yw'r
unigolyn yn
gallu gwneud
rhywbeth pwysig
[allan o restr o
weithgareddau
allweddol]



Three vertical lines for handwriting practice.

17

Asesu cymhwysra ~ crynodeb

Gellir cyflawni'r
dasg allweddol
yn unig
os yw'r ALI
yn darparu'r
cymorth



Three vertical lines for handwriting practice.

18

Asesu cymhwysra ~ crynodeb



19

Asesu angen “Beth os...”

- Beth fydd yn digwydd os nad oes gofal a chymorth ar gael?
- Y mwyaf yw'r risg i lesiant yr unigolyn, y mwyaf yw'r cyfrifoldeb ar yr ALI i ddiwallu'r angen hwnnw - neu i roi rhesymau cadarn pam nad yw hyn yn angenrheidiol.
- Mae llesiant yn cynnwys llesiant corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol ynghyd â'r gallu i gymryd rhan mewn cyflogaeth, addysg, hyfforddiant, hamdden a gweithgareddau cymdeithasol.

20

Asesu cymhwysra ~ crynodeb

1. ni all yr unigolyn anabl / gofalwr wneud tasgau allweddol ei hun;
2. nid oes unrhyw un yn barod / yn gallu eu helpu; ac
3. nid oes adnoddau cymunedol sy'n gallu gwneud hyn chwaith

Hyd yn oed os yw rhywun yn dechnegol yn gallu gwneud rhywbeth ei hun, anwybyddir hyn pe bai:

- yn achosi poen, pryder neu drallod sylweddol iddynt;
- yn peryglu iechyd / diogelwch; neu
- yn cymryd cryn dipyn yn hirach o amser na'r disgwyl

Rheoliadau Gofal a Chymorth (Cymhwysra) (Cymru) 2015 a6.

21

Asesu cymhwysra ~ crynodeb

Tasgau allweddol fel:

- bwyta, cadw'n lân, gwisgo, paratoi prydau bwyd gan gadw'r cartref yn lân, symud o gwmpas yn ddiogel
- cymryd rhan mewn gwaith, addysg, dysgu, hamdden;
- cynnal perthnasoedd personol ac ymwneud gyda'r gymuned;
- gofalu am blentyn;
- bod yn ddiogel rhag camdriniaeth neu esgeulustod;

22

Cynllunio Gofal a Chymorth "sut, pwy, beth a phryd"

Beth yw'r angen a aseswyd

Sut y bwriedir diwallu'r angen

- lefel ac amlder y cymorth sydd i'w ddarparu;
- pwy sy'n mynd i'w ddarparu;
- pa asiantaeth sy'n gyfrifol am ba wasanaeth;
- beth yw'r amcanion darparu cymorth (deilliannau);
- pryd mae'r gofal yn cael ei ddarparu (amseroedd / diwrnodau / dyddiadau);
- beth y mae'r gofaliwyr yn barod i'w wneud;
- pwy yw'r cydlynnydd a beth yw'r rhif cyswllt;
- gyda phwy i gysylltu mewn argyfyngau;
- beth yw'r cynllun wrth gefn os aiff pethau o chwith;
- pwy sy'n monitro'r cynllun;
- pryd mae'r adolygiad i ddigwydd.

23

Copiau o asesiadau a chynlluniau gofal

Mae'n rhaid rhoi copi o'r canlynol i'r unigolyn / ei gynrychiolydd awdurdodedig a / neu ei rieni:

- ei asesiad

Rheoliadau Gofal a Chymorth 2015 a6

- pob elfen o'r asesiad a chymhwysra ynghyd â chynllun gofal a chymorth yr unigolyn

Cod Ymarfer Rhan 4 para 24 a 95.

24

Hawliau gofalwyr o dan Ddeddf 2014

25

Trosolwg

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar wasanaethau Cymdeithasol i:

- Hyrwyddo 'llesiant' gofalwyr sydd angen cymorth (a5);
- Asesu anghenion cymorth gofalwyr (oedolion sy'n ofalwyr, gofalwyr ifanc a rhiant ofalwyr) (a24);
- Asesu i ba raddau y mae gofalwyr yn barod ac yn gallu darparu (a pharhau i ddarparu) gofal (a24);
- Darparu cymorth i ddiwallu anghenion cymwys gofalwyr.

26

Asesiadau gofalwyr

Nid oes rhaid i ofalwyr 'ofyn' am yr asesiad a dylid ei wneud cyn gynted ag y bydd cyngor yn ymwybodol o'u rôl ofalu (adran 24);

Er mwyn cael asesiad, nid oes rhaid i ofalwyr fod yn darparu gofal 'rheolaidd a sylweddol' (adran 3);

Mae yna '**ddyletswydd**' i ddiwallu 'anghenion cymwys' gofalwyr'

- ar gyfer gofalwyr sy'n oedolion (adran 40);
- ar gyfer gofalwyr sydd o dan 18 oed – hy gofalwyr ifanc – cyfeirir atynt fel 'gofalwyr ifanc' (adran 42).

27

Asesiadau cyfun

Ar gyfer oedolion

- Dim ond os yw'r ddau'n cytuno y gellir cyfuno asesiad gofalwr ag asesiad unigolyn anabl (a28);

Ar gyfer pobl ifanc o dan 16

- Dim ond os yw'r rhiant a'r plentyn yn cytuno y gellir cyfuno asesiadau (a28);

Oni bai bod y cyngor 'wedi'i fodloni' (1) nad oes gan y plentyn allu i gytuno a (2) bod asesiad cyfun yn 'gyson â llesiant y plentyn';

Ond nid yw'n eglur a oes rhaid i'r rhiant hefyd gytuno i asesiad cyfun mewn achosion o'r fath (a28 (6))

28

Asesiadau gofalwyr

Beth yw 'gofal'?

- Cymorth ymarferol ac emosiynol: adran 2 (2) (a) 'iechyd corfforol a meddyliol a lles emosiynol'

- Mae canllawiau blaenorol wedi cyfeirio at ofalwyr nad ydynt efallai 'yn gofalu yn gorfforol nac yn ymarferol o gwbl ar adegau penodol, ond sy'n dal i fod yn bryderus ac o dan straen yn aros am yr argyfwng nesaf, neu wrthi'n weithredol yn ceisio ei atal'.

Canllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru Deddf 2000 (2001) para 4.11

29

Egwyddorion sylfaenol

Nid oes dyletswydd i ofalu am aelodau'r teulu - diddymwyd y rhwymedigaeth hon yn Neddf y Tlodion gan adran 1 y Ddeddf Cymorth Gwladol 1948.

Rhaid i gynghorau:

- beidio â rhagdybio bod gofalwr yn gallu a/neu'n barod i ddarparu (a pharhau i ddarparu) gofal (a24);
- asesu effaith darparu (a pharhau i ddarparu) gofal ar 'llesiant' gofalwr (adrannau 2 a 6);
- adnabod y deilliannau y mae gofalwr yn eu dymuno yn ei b/fwyd o ddydd i ddydd (a24);
- adnabod a yw'r gofalwr yn gweithio neu'n dymuno (a / neu) cymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu hamdden (a24).

30

Gofalwyr: parod ac abl

Mae'n rhaid cofnodi pa mor abl a pharod yw gofalwr i ofalu yn benodol

Cod Ymarfer Rhan 3 (Asesu Anghenion Unigolion) para 120

Gall fod yn anodd i ofalwr ddweud nad yw'n barod i ddarparu gofal. Mewn achosion o'r fath, gellid nodi'r canlynol:

- Nid yw'n gwestiwn o 'fod yn barod' - y ffaith syml yw eu bod yn methu â darparu gofal oni bai bod yr awdurdod yn penderfynu yn y lle cyntaf bod yr unigolyn yn gymwys.
- Dim ond wedi hynny, y byddant yn gallu trafod natur a maint y gofal y gallent fod yn barod i'w ddarparu (os o gwbl).

31

Gofalwyr: parod ac abl

Wrth ddyfarnu cymhwysra, ni ddylid dibynnu gormod ar unrhyw drefniadau gofalu gwirfoddol. Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod gallu'r gofalwr i ddarparu gofal yn gynaliadwy a'i fod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd gyffredinol i hyrwyddo llesiant y gofalwr a'r person sy'n derbyn gofal.

Cod Ymarfer Rhan 4 (Diwallu Anghenion) para 36

32

Parod ac abl

Roedd cwyn ombwdsmon yn 2018 yn ymwneud ag unigolyn anabl a oedd â char symudedd. Er nad oedd yn gallu gyrru'r car, penderfynodd y cyngor y dylai ei rieni ei yrru - gan ei gludo yn ôl a blaen i'w ganolfan ddydd.

- Dyfarnodd yr ombwdsmon mai camweinyddu oedd i'r cyngor fethu ag ystyried yr effaith y byddai hyn yn ei gael ar eu hiechyd, eu colli gofal seibiant ac a oeddent yn barod ac yn abl i wneud hyn.

Cyngor Dinas Nottingham (18 004 245) 2018
Gweler hefyd Cyngor Sir Wiltshire (16015946) 2018

33

Parod ac abl

Ombwdsmon Llywodraeth Leol (2016)

- Rhaid i awdurdodau beidio â chymryd yn ganiataol bod gofalwr yn barod neu'n abl i ddarparu unrhyw ofal - gan gynnwys gofal ychwanegol sy'n deillio o ostyngiad yn y pecyn gofal.
- Camweinyddu fyddai i ostyngiad ddigwydd heb asesu'r gofalwr ac egluro (a chofnodi) yn benodol a yw ef / hi yn 'alluog ac yn abl' i ddarparu'r gofal ychwanegol.
- Gostyngodd awdurdod lleol gymorth oedolyn mewn angen heb roi ystyriaeth gywir i'r effaith ar ei ofalwr.

Cwyn Bwrdeistref Llundain Bromley 7/9/16

Cwyn CS Essex 30/11/16

34

Cwrdd ag anghenion cymwys: gofal a chymorth

35

Cwrdd ag anghenion cymwys

Gall awdurdodau gwrdd ag anghenion mewn amryw o ffyrdd:

Rhaid i ALlau gwrdd ag anghenion pobl a aseswyd fel rhai cymwys (hy gofalwyr neu bobl anabl) (adrannau 35, 37, 40 a 42)

- (1) Trwy ddarparu (neu drefnu) cymorth i'w ddarparu i'r unigolyn anabl neu ofalwr;
- (2) Mae enghreifftiau o gymorth yn cynnwys: llety gofal; gofal a chymorth yn y cartref neu yn y gymuned; gwasanaethau, nwyddau a chyfleusterau; gwaith cymdeithasol; taliadau uniongyrchol; cymhorthion ac addasiadau ac ati

adran 34(1) a (2)

36

Seibiant / egwyl byr

Nid yw'r ddyletswydd i ddiwallu'r anghenion yn 'dibynnu ar adnoddau'.

- hy os yw'r asesiad yn adnabod angen am (dyweder) 10 awr o wasanaethau eistedd i mewn yr wythnos, neu un penwythnos y mis i'r plentyn gael ei letya i ffwrdd o'r cartref - yna mae'n rhaid diwallu'r angen hwnnw yn union ac nid yw'n rhywbeth y mae'r ALL yn gallu ei 'docio' oherwydd bod gofyn iddo wneud toriadau oherwydd prinder adnoddau.

37

Seibiant / egwyl byr

Adroddiad ombwdsmon 2016

- Roedd oedolyn ag LD yn byw gyda'i rieni. Roedd ei becyn gofal ers sawl blwyddyn wedi cynnwys 50 diwrnod o ofal newydd er mwyn galluogi ei rieni i gael seibiant.
- Yn dilyn adolygiad, gostyngwyd hyn i 14 diwrnod er nad oedd ei anghenion wedi newid a chofnodwyd bod cynaliadwyedd ei rieni wrth gynnal eu cymorth mewn perygl.
- Wrth ganfod camweinyddu, dyfarnodd yr ombwdsmon fod yn rhaid i'r ALL roi esboniad ynghylch y rhesymau dros y gostyngiad: bod angen iddo 'ddangos pa amgylchiadau sydd wedi newid i warantu'r gostyngiad hwn yn y ddarpariaeth seibiant'.

38

Seibiant / egwyl byr

Nid oedd yn dderbyniol i'r cyngor nodi y byddai'n cynnig seibiant brys pe bai'r angen yn codi:

- Nid yw angen y rhiant am 'benwythnosau i ffwrdd ac ychydig o fywyd cymdeithasol yn argyfyngau ond yn rhan o drefn cymorth cynaliadwy cynlluniedig'.
- Nid yw asesiad y Cyngor yn mynd i'r afael â'r materion cynaliadwyedd hyn... rhaid cynnwys yr effaith ar fywydau beunyddiol y gofalwyr a gweithgareddau nad ydynt yn ofalu.

Cwyn yn erbyn CBT Sefton 23 Awst 2016.

39

Cymorth penodol i ofalwyr

Gall awdurdodau lleol ddarparu cymorth o bob math yn uniongyrchol i ofalwr. Er nad yw canllawiau Cymru yn trafod y pwynt hwn, mae canllawiau Lloegr yn awgrymu y gallai hyn gynnwys:

- dosbarthiadau ymlacio, hyfforddiant ar reoli straen, aelodaeth campfa neu ganolfan hamdden, dysgu oedolion, datblygu sgiliau gwaith newydd neu adnewyddur sgiliau presennol (fel y gallant aros mewn cyflogaeth â thâl ochr yn ochr â gofalu neu fynd yn ôl i waith â thâl), dilyn hobiau fel prynu sied gardd, neu brynu gliniadur fel y gallant gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau.

Canllaw Statudol i Ddeddf Gofal 2014 para 11.41

40

Cymorth penodol i ofalwyr

Treuliau teithio Gofalwr

Mewn achos Uchel Lys yn 2015 cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Gwladol y gallai gwasanaethau gofalwyr o dan Ddeddf Gofal 2014 'gynnwys cymorth gyda thaliadau wrth deithio at sawl sy'n derbyn gofal'.

Hurley v. SS Work and Pensions
[2015] EWHC 3382 (Admin) para 25

Nid oes gwahaniaeth rhwng Deddf GCalI-b (C) 2014 – yn y cyswllt hwn - a Deddf Gofal 2014

41

Taliadau Uniongyrchol

Adrannau 50 – 53

- Mae Rheoliadau Gofal a Chymorth (Taliadau Uniongyrchol) (Cymru) 2015 yn cynnwys y manylyn
- Bellach gellir defnyddio taliadau uniongyrchol i brynu gofal a chymorth ... gan unrhyw berson (gan gynnwys, ymhlith eraill, yr awdurdod a wnaeth y taliad).

42

Taliadau Uniongyrchol

Adroddiadau Ombwdsmon

- Canfu adroddiad yn 2018 achos o gamweinyddu lle ceisiodd cyngor adennill arian taliad uniongyrchol a wariwyd ar offer garddio a gwylio adar lle'r oedd yr asesiad wedi adnabod yr angen i gael mynediad at weithgareddau cymunedol.

Rhif 17 013 291 (CS Norfolk)) 24 Ebrill 2018

- Adroddiad 2018 ynghylch taliad uniongyrchol a ddefnyddiwyd i ddarparu gofal seibiant er mwyn galluogi gŵr i ddilyn ei hobi cerdded

Rhif 17 011 713 (CBT Kirklees) 26 Medi 2018

- Adroddiad 2018 ynglŷn â chostau gofal anifail anwes

Rhif 13 014 946 (Canol Sir Bedford C) 15 Ion 2016

43

Rhiant ofalwyr

44

Rhiant ofalwyr

Mae Adran 24 yn gosod dyletswydd ar yr ALI i asesu:

- Pan fydd gofalwr yn darparu cymorth i oedolyn neu blentyn anabl sydd wedi'i leoli yn ardal yr ALI;
- Rhaid i'r asesiad ystyried
 - a oes angen cymorth ar ofalwr; a
 - beth yw'r anghenion hynny.

45

Rhiant ofalwyr

Mae a24 yn glir bod rhaid i awdurdodau :

- asesu'r graddau y mae'r gofalwr yn abl / yn parhau i fod yn abl, i ddarparu gofal;
- asesu'r graddau y mae'r gofalwr yn barod, ac yn parhau i fod yn barod, i wneud hynny;

Mae a21(7) yn datgan y rhagdybir bod angen gofal ar blentyn anabl yn ychwanegol at, neu yn lle, y gofal a'r cymorth a ddarperir gan deulu'r plentyn.

46

Adroddiad ombwdsmon 2016

- Mam sengl gyda dau o blant: un ag anableddau sylweddol ac angen goruchwyliaeth gyson.
- Dywedodd y Cyngor wrthi ei fod yn disgwyl i rieni drefnu eu cyfrifoldebau gwaith o amgylch anghenion eu plant: nad cyfrifoldeb y Cyngor oedd darparu taliadau uniongyrchol er mwyn galluogi rhieni i weithio
- Ond gallai'r fam ddefnyddio'r cyfnodau seibiant a gafodd i'w galluogi i weithio

47

Adroddiad ombwdsmon 2016

Camweinyddu

- Roedd y Cyngor wedi methu â deall y gyfraith.
- Dylai asesiad y plentyn ac asesiad y gofalwr 'fwydo i mewn i'w gilydd'.
- Roedd y Cyngor yn gwybod bod angen goruchwyliaeth gyson ar y mab.
- Roedd y Cyngor hefyd yn gwybod bod y fam mewn gwaith amser llawn a bod natur ei swydd yn golygu na allai weithio'n hyblyg.
- Roedd y rhain yn ffactorau allweddol ond nid oedd asesiad y mab nac asesiad y gofalwr wedi ystyried y materion hynny'n briodol

48

Adroddiad ombwdsmon 2016

- Mae canllawiau'r llywodraeth yn nodi'n glir na ddylai awdurdodau ragdybio bod gofalwr yn hapus i barhau yn ei rôl ofalu.
- Mae'n ofynnol i gynghorau ystyried a yw gofalwr yn dymuno gweithio.
- Nid oedd unrhyw beth yn yr asesiadau i awgrymu bod y Cyngor wedi rhoi ystyriaeth briodol i'r effaith ar... pe na bai'n derbyn cymorth yn ystod gwyliau ysgol.

Cyngor Sir Caint Rhif. 14 015 230 7 Mehefin 2016.

49

Adroddiad ombwdsmon 2007

Gwnaeth rhiant gais am daliadau uniongyrchol i'w alluogi i brynu gofal seibiant i'w fab ifanc, fel y gallai ddilyn ei astudiaethau Prifysgol.

Roedd y cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i rhiant ofalwyr roi rhesymau pam eu bod eisiau taliadau uniongyrchol (yn lle gwasanaethau) gan nodi beth bynnag:

- na ellid talu taliadau uniongyrchol am ofal plant gan mai cyfrifoldeb y rhieni oedd gofal plant, p'un a oes gan blant 'anabledd ai peidio'

50

Adroddiad ombwdsmon 2007

Dyfarnodd yr ombwdsmon:

- bod rhwymedigaeth ar awdurdodau lleol i sicrhau nad yw rhieni 'dan anfantais wrth ddilyn addysg/hyfforddiant mwy na rhieni eraill'.

Cwyn Rhif. B2004/0707/S/370 (CS Abertawe) 22 Chwef 2007

51

Gofalwyr ifanc

52

Gofalwyr ifanc

Mae adran 42 yn gosod dyletswydd ar ALLau i ddiwallu anghenion gofalwyr ifanc (a elwir yn 'ofalwyr ifanc') os yw unigolion y maent yn gofalu amdanynt wedi'u lleoli yn ardal yr ALI ac os yw'r Gofalwr Ifanc yn cwrdd â meini prawf cymhwysra safonol gofalwyr.

Fodd bynnag, os eir i'r afael ag anghenion yr Gofalwr Ifanc trwy ddarparu cymorth ychwanegol i'r unigolyn y mae'n gofalu amdano/i, yna mae'r ddyletswydd yn codi yn unig os yw'r person hwnnw'n bodloni'r rheolau cymhwysra ariannol (a42 (4)) a meini prawf galluedd meddyliol (gor gymhleth) (a43).

53

Gofalwyr ifanc

Gofalwyr dan 18 oed sy'n darparu gofal i oedolyn / plentyn anabl (di-dâl ac nid fel 'gwaith gwirfoddol') adran 3

- Ni ddylai gofalwyr ifanc orfod cyflawni rolau gofalu sylweddol - boed hynny ar gyfer brawd neu chwaer neu riant - ayb.
- Mae arfer gorau yn ei gwneud yn ofynnol, pan ganfyddir bod gofalwr ifanc yn darparu gofal sylweddol i unigolyn arall, i'r gwasanaethau cymdeithasol wneud trefniadau i'r unigolyn sydd angen gofal gael cymorth digonol fel nad yw'r gofalwr ifanc yn gorfod darparu'r gofal hwn ei hun

54

Gofalwyr ifanc

- Rhaid i ALLau geisio adnabod y deilliannau y mae Gofalwyr Ifanc yn dymuno eu cyflawni (a24 (4) (d)) 'i'r graddau' ei bod yn 'briodol ystyried oedran a dealltwriaeth y gofalwr', yn ogystal â barn eu rhieni ar hyn a'u llesiant yn gyffredinol (a24 (4) (d)).
- Rhaid i asesiadau Gofalwyr Ifanc hefyd roi sylw arbennig i anghenion datblygiadol y plentyn, ac a yw'n briodol i'r plentyn fod yn darparu'r gofal o gwbl (a24 (5) (c)).

55

Gofalwyr ifanc

- Yn yr un modd â'r ddyletswydd asesu sy'n ddyledus i blant anabl, (a21 (6)) dylai'r ffordd y cynhelir asesiad gofalwr fod yn 'gymesur yn yr amgylchiadau' (a24 (7)).
- Mae cymesuredd yn mynd i gwmpas a dyfnder asesiad - ac nid (wrth gwrs) i'r cwestiwn a ddylid cynnal un: mae'r ddyletswydd i asesu (lle gall angen fodoli) yn orfodol.

56

Gofalwyr ifanc

- Rhaid i'r asesiad ... ystyried a yw'r gofalwr yn gweithio neu'n dymuno gweithio ac a yw'n cymryd rhan neu'n dymuno cymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant neu weithgareddau hamdden.
- [ar gyfer Gofalwyr Ifanc] rhaid i'r asesiad roi sylw i'w anghenion datblygu ac i ba raddau y mae'n briodol i'r plentyn ddarparu'r gofal.
- Dylai hyn arwain at ystyriaeth gan yr ALI a yw [y Gofalwr Ifanc] mewn gwirionedd yn blentyn ag anghenion gofal a chymorth ... y dylid ei asesu o dan a21.

Cod Ymarfer Rhan 3 p7 a Cod Ymarfer Rhan 4 para 50.

57

R (E) v. CBLI Islington (2017)

- Roedd yn rhaid i'r plentyn gyfieithu i iaith arwyddion i'w mam fyddar (ac i'r gwrthwyneb) a darparu gofal ychwanegol i frodyr a chwiorydd iau;
- Roedd yr ALI yn ystyried hyn yn 'amhrifodol iawn';
- Roedd yr ALI yn derbyn bod gan y plentyn gyfrifoldebau 'gofalu y tu hwnt i'r hyn sy'n briodol' ond dadleuodd fod y rhain oherwydd rianta annigonol ei mam;
- Gwrthododd yr ALI gynnal asesiad Gofalwr Ifanc;

Dyfarniad

- afresymegol - roedd hi'n darparu ar gyfer anghenion yn deillio o fyddardod ei mam, hyd yn oed os gallai agwedd y fam tuag at rianta fod wedi bod yn ffactor cyfrannol.

58

Problemau cyffredin

59

Covid-19

60

Covid-19

Deddf Coronafeirws 2020 a15 ac Atodlen 12 Rhan 2

Swmp sylweddol o ganllawiau LIC ee

- Llywodraeth Cymru *Ymweliadau â chartrefi gofal: canllawiau i ddarparwyr 2020*
- Llywodraeth Cymru *Gwasanaethau cymdeithasol i oedolion yn ystod y pandemig COVID-19: canllawiau 2020*
- Llywodraeth Cymru *Gwasanaethau cymdeithasol i blant yn ystod y pandemig COVID-19: canllawiau 2020*

8.

61

Covid-19

Llywodraeth Cymru *Gwasanaethau cymdeithasol i oedolion yn ystod y pandemig COVID-19: canllawiau 2020*

... dylai awdurdodau barhau i wneud popeth o fewn eu gallu i gwrdd â'u dyletswyddau presennol cyn i ddarpariaethau Deddf 2020 ddod i rym

Mae egwyddorion sylfaenol yr ymagwedd gofal cymdeithasol yn parhau heb eu haddasu:

- atal ac ymyrraeth gynnar - cynyddu gwasanaethau ataliol....
- llais a rheolaeth - rhoi unigolion a'u hanghenion, yng nghanol eu gofal...

62

Covid-19

Llywodraeth Cymru *Gwasanaethau cymdeithasol i oedolion yn ystod y pandemig COVID-19: canllawiau 2020*

Mae'r canllaw yn cyfeirio at (ac yn cymeradwyo) dogfen Adran Iechyd Lloegr 'Ymateb i COVID-19: y fframwaith moesegol ar gyfer gofal cymdeithasol oedolion' (2020) sy'n cynnwys 'hyblygrwydd' fel egwyddor allweddol:

- Diffinnir yr egwyddor hon fel un ymatebol, abl, a pharod i addasu wrth wynebu newid mewn amgylchiadau neu amgylchiadau newydd. Mae'n hanfodol bod yr egwyddor hon yn cael ei chymhwyso i'r gweithlu iechyd a gofal a'r sector ehangach, er mwyn hwyluso gweithio ystwyth a chydweithredol

63

Covid-19

Hyblygrwydd

Bod yn hyblyg pan ddarperir gofal a chymorth;

Bod yn ddychmygus wrth ddefnyddio taliadau uniongyrchol (hy cario arian drosodd o wythnos i wythnos / talu aelodau o'r teulu ac ati.

Cyfngiadau hyblygrwydd ac ymweld – gweler ee :

- *BP v Cyngor Sir Surrey a RP* [2020] EWCOP 1
- *Hertfordshire Partnership University NHS Foundation Trust* (2020)

Roedd y ddau yn ymwneud â gwaharddiadau llwyr ar gyswllt ag unigolyn anabl - roedd y ddau yn ymwneud â 'chymesuredd'

64

Covid-19

Gostyngiad mewn pecynnau gofal oherwydd Covid

Os yw gofal a chymorth yn cael ei leihau oherwydd anawsterau cyflenwi - hy pellhau cymdeithasol ayb - yna mae'n rhaid i awdurdodau nid yn unig ddangos hyblygrwydd, rhaid iddynt hefyd adfer y cymorth cyn gynted ag y bydd amgylchiadau'n caniatáu.

Mae rhai awdurdodau yn awgrymu na fyddant yn adfer cymorth heb ailasesiad.

Yn gyfreithiol mae'n rhaid bod hyn yn anghywir.

65

Covid-19

Gostyngiad mewn pecynnau gofal oherwydd Covid

Mae dau ragdybiaeth gyfreithiol allweddol y mae'n rhaid eu defnyddio mewn achosion o'r fath:

1. bod yr angen yn parhau - nes bod gan yr awdurdod dystiolaeth nad ydyw; a
2. bod yn rhaid diwallu'r angen os yw hynny'n bosibl - felly os deuir o hyd i (er enghraifft) ffordd arall o ddarparu'r cymorth neu os yw'r rheolau ar bellhau cymdeithasol yn cael eu llacio - yna mae'n rhaid adfer y cymorth yn llawn a'i gynnal tan yr amser y mae gan yr awdurdod dystiolaeth gref bod yr angen wedi lleihau

66

Gwrthdaro rhwng y gofalwr / unigolyn anabl

67

'Rhai sy'n derbyn gofal' yn gwrthod gwasanaethau

Gall unigolyn anabl wrthod gwasanaethau a fyddai o fudd i'r gofalwr - er enghraifft gofal seibiant.

Yn aml dim ond trwy waith cymdeithasol medrus a pharhaus y gellir datrys y sefyllfaoedd anodd hyn. Mae'r llysoedd wedi dyfarnu dro ar ôl tro na all adrannau gwasanaethau cymdeithasol dderbyn gwrthod cymorth ar yr wyneb. Dylent barhau i geisio ymgysylltu â'r unigolyn.

ee *R v CBBLI Kensington a Chelsea ex p Kujtim* (1999) a
R (Patrick) v. Newham LBC (2000) 4 CCLR 48.

68

'Rhai sy'n derbyn gofal' yn gwrthod gwasanaethau

- Yn ôl y gyfraith, lle mae awdurdod wedi nodi bod gan ofalwr anghenion cymwys (ond nad yw'n gallu diwallu'r anghenion hyn trwy ddarparu gofal a chymorth i'r oedolyn sydd angen gofal) yna mae'n rhaid iddo 'i'r graddau y mae'n ymarferol gwneud hynny, nodi rhyw ffordd arall o wneud hynny'.
- nodir hyn yn benodol yn adran 20 (8) Deddf Gofal 2014, a rhaid iddo fod ymhlyg o fewn Deddf GCalI 2014.

69

'Rhai sy'n derbyn gofal' yn gwrthod gwasanaethau

- Mae arweiniad yn Lloegr ar 'ymagweddau teulu cyfan' yn darparu cyngor ymarferol ynghylch unigolyn oedranus â dementia a oedd yn bendant nad oedd am i neb heblaw ei merch ofalu amdani - a oedd ei hun 'wedi ymlâdd ac ar fin torri' - lle cymerwyd ymagwedd ddychmygus i weithio o amgylch y mater hwn.

Yr Adran Iechyd (Lloegr) The Care Act and Whole-Family Approaches (2015) tt. 8-9

70

Rhannu gwybodaeth

Weithiau gwrthodir mynediad i ofalwyr at wybodaeth hanfodol sy'n ymwneud ag unigolyn 'sy'n derbyn gofal' sydd heb alluedd meddyliol digonol i gytuno i rannu'r wybodaeth.

Mae canllaw'r CMC (2017) fodd bynnag yn cyngori:

mae'n rhesymol tybio y byddai cleifion yn dymuno i'r rhai sydd agosaf atynt gael gwybod am eu cyflwr cyffredinol a'u prognosis

CMC Cyfrinachedd: arfer da mewn trin gwybodaeth cleifion (2017) para 38

71

Gofalwyr, cydraddoldeb a chyfraith iawnderau dynol

72

Gwahaniaethu Trwy Gysylltiad

Yn nyfarniad *Coleman v Attridge Law* (2008), dyfarnodd Llys Cyfiawnder Ewrop bod gofaluwr pobl anabl yn cael eu hamddiffyn rhag gwahaniaethu 'trwy gysylltiad'

Mae hyn yn bodoli pan fydd rhywun yn cael ei drin yn niweidiol oherwydd ei fod yn gofalu am unigolyn anabl - hy:

- cael eich diswyddo oherwydd eich bod wedi cymryd amser i ffwrdd i ofalu;
- benthyciad ariannol yn cael ei wrthod oherwydd bod y banc yn dod i wybod bod gennych unigolyn anabl yn eich cartref;
- cludiant ysgol am ddim yn cael ei wrthod i'ch mab anabl 15 oed (na all gerdded ar ei ben ei hun i'r ysgol) oherwydd fel rhiant dylech fynd gydag ef.

73

'Canolbwyntio ar fenywod sy'n rhoi gofal'

'mae'n anodd meddwl am hawl ddynol nad yw dosbarthiad anghyfartal ac anawsterau gwaith gofal di-dâl yn effeithio arno mewn rhyw ffordd' (para 27)

Magdalena Carmona,
Rapporteur Arbennig Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig
ar dlodi eithafol a iawnderau dynol
'Canolbwyntio ar fenywod sy'n rhoi gofal A/68/293 (UN, 2013)

74

Rhan 6 Meini Prawf Cymhwysra

Rheoliadau Gofal a Chymorth
(Cymhwysra) (Cymru) 2015

Proses 4 cam

75

Rheoliadau Cymhwystra 2015 ~ Cam 1

Oedolion mewn agen a phlant anabl:

- Mae'r angen oherwydd afiechyd corfforol neu feddyliol, oedran, anabledd, dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau...;

Gofalwyr:

- Mae'r angen yn codi o ganlyniad i ddarparu gofal i oedolyn mewn angen neu blentyn anabl

76

Rheoliadau Cymhwystra 2015 ~ Cam 2

Mae'r angen yn ymwneud ag un neu fwy o'r deilliannau canlynol:

- y gallu i gyflawni hunanofal neu arferion domestig sylfaenol;
- amddiffyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod;
- ymwneud â gwaith, addysg, dysgu, hamdden...;
- cynnal perthnasoedd teuluol / personol arwyddocaol;
- datblygu a chynnal perthnasoedd cymdeithasol ac ymwneud â'r gymuned;

yn achos oedolyn

- cyflawni cyfrifoldebau gofalu am blentyn;
ee *CS Bryste v S* (2015); adroddiad ombwdsmon
17 012 768 (CS Swydd Stafford) 18 Mai 2018

77

Rheoliadau Cymhwystra 2015 ~ Cam 2

Mae'r angen yn ymwneud ag un neu fwy o'r deilliannau canlynol:

- y gallu i gyflawni **hunanofal** neu arferion domestig sylfaenol;
- amddiffyn rhag camdriniaeth neu esgeulustod;
- ymwneud â gwaith, addysg, dysgu, hamdden...;
- cynnal perthnasoedd teuluol / personol arwyddocaol;
- datblygu a chynnal perthnasoedd cymdeithasol ac ymwneud â'r gymuned;

yn achos oedolyn

- cyflawni cyfrifoldebau gofalu am blentyn;

yn achos plentyn

- cyflawni nodau datblygiadol

78

Rheoliadau Cymhwystra 2015 ~ Cam 2

hunanofal sylfaenol ~ tasgau sy'n rhan o fywyd beunyddiol arferol gan gynnwys —

- (i) bwyta ac yfed;
- (ii) cynnal hylendid personol;
- (iii) codi a gwisgo;
- (iv) symud o gwmpas y cartref;
- (v) paratoi prydau bwyd;
- (vi) cadw'r cartref yn lân, yn ddiogel ac yn hylan

79

Rheoliadau Cymhwystra 2015 ~ Cam 3

Nid yw'r oedolyn yn gallu diwallu'r angen hwnnw chwaith—

- (i) ar ei ben ei hun,
- (ii) gyda chymorth eraill sy'n barod i ddarparu;
- (iii) gyda chymorth gwasanaethau yn y gymuned y mae gan yr oedolyn fynediad iddo.

'methu' gwneud rhywbeth os yw:

- yn achosi poen, pryder neu drallod sylweddol
- yn peryglu iechyd neu ddiogelwch yr unigolyn neu rywun arall

80

Rheoliadau Cymhwystra 2015 ~ Cam 3

Nid yw'r oedolyn yn gallu diwallu'r angen hwnnw chwaith, naill ai—

- (i) ar ei ben ei hun,
- (ii) gyda chymorth eraill sy'n **barod** i ddarparu;
- (iii) gyda chymorth gwasanaethau yn y gymuned y mae gan yr oedolyn fynediad iddo.

'methu' gwneud rhywbeth os yw'n:

- achosi poen, pryder neu drallod sylweddol
- peryglu iechyd neu ddiogelwch yr unigolyn neu rywun arall
- cymryd dipyn yn hirach i'r unigolyn hwnnw na'r hyn a ddisgwyliid fel rheol.

81

Rheoliadau Cymhwystra 2015 ~ Cam 3

barod

Gellid cynghori gofalwyr i:

- ddatgan nad ydynt yn gallu (ac felly yn amharod) darparu gofal oni bai bod yr ALI yn penderfynu yn gyntaf bod yr unigolyn yn gymwys.
- y byddant wedyn, a dim ond wedyn, yn gallu (ac felly'n barod) i drafod natur a maint y gofal (os o gwbl) y gallent fod yn barod i'w ddarparu.

Fel y nodwyd eisoes, rhaid cofnodi gallu a pharodrwydd gofalwr yn benodol

82

'Gwasanaethau yn y gymuned y mae gan yr oedolyn fynediad iddynt'

A oes rhaid i'r gofalwr / unigolyn anabl ddangos nad oes gwasanaethau cymorth 'mynediad agored' addas ar gael - hy eu bod wedi rhoi cynnig ar amryw opsiynau ac nad yw'r rhain wedi gweithio?; neu ai'r awdurdod lleol sy'n gorfod adnabod gwasanaethau cymorth a fyddai'n diwallu anghenion y gofalwr / unigolyn anabl (ac felly nid oes angen iddo orfod darparu pecyn cymorth wedi'i deilwra i'r unigolyn)?

83

'Gwasanaethau yn y gymuned y mae gan yr oedolyn fynediad iddynt'

Yr awdurdod lleol sydd â'r ddyletswydd

Cod Rhan 4

32. Ni ddylid defnyddio'r meini prawf cymhwystra fel offeryn i'w gwneud yn ofynnol i unigolion ddangos eu bod wedi disbyddu pob llywybr cymorth posibl arall cyn dod yn gymwys i gael cymorth awdurdod lleol.

84

Beth yw 'deilliannau personol'?

4

Mae Rhan 2 Cod t.9 yn cynnwys diagram sy'n ceisio egluro hyn.

4

[illegible]

29



88
